**PWYLLGOR CYNLLUNIO**

**20 CHWEFROR 2013**

**ADRODDIAD GAN BENNAETH CYNLLUNIO A GWARCHOD Y CYHOEDD**

# CYTUNDEB PERFFORMIAD CYNLLUNIO

# FFERM WYNT COEDWIG CLOCAENOG

## 1 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Mae'r adroddiad yn codi oherwydd bod RWE n power Renewables (yr Ymgeisydd) wedi cynnig bod yn rhan o Gytundeb Perfformiad Cynllunio gyda Chyngor Sir Ddinbych a Chyngor Sir Conwy ar gyfer gwaith mewn perthynas â chais Fferm Wynt Coedwig Clocaenog sydd i'w gyflwyno i'r Arolygaeth Cynllunio yn y dyfodol agos.

Mae angen Cytundeb Perfformiad Cynllunio i sicrhau fod yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn gallu darparu digon o adnoddau i allu ystyried yn llawn gais am Orchymyn Caniatáu Datblygu, ac i sicrhau hefyd y gellir ymateb yn ddigonol o fewn amser penodol yn y broses ymgeisio.

1.3 Mae'r Ymgeisydd wedi nodi y bydd y cais am Orchymyn Caniatau Datblygu yn cael ei gyflwyno i'r Arolygaeth Cynllunio erbyn diwedd Mawrth 2013 ac y dylai'r Cytundeb Caniatau Datblygu fod wedi'i lofnodi cyn hynny. Felly, mae'n rhaid adrodd i'r Pwyllgor hwn i gael penderfyniad ar y gwaith sydd ei angen er mwyn cyfarfod â'r amserlen / terfynau amser priodol.

## 2 **CEFNDIR**

2.1 Mae RWE n power Renewables yn bwriadu ymgeisio erbyn diwedd mis Mawrth 2013 i'r Ysgrifennydd Gwladol, trwy'r Arolygaeth Cynllunio, am ddatblygiad o dyrbinau gwynt mawr yng Nghoedwig Clocaenog .

2.2. Mae Swyddogion Cynghorau Sir Ddinbych a Sir Conwy wedi bod yn trafod rheolaeth y broses gyda'r ymgeiswyr ers amser maith ac yn benodol, faint o adnoddau a fydd eu hangen i gyfarfod â'r amserlenni ac i ddarparu'r lefel briodol o ymateb i'r cyn cais ac i broses archwilio'r Arolygaeth Cynllunio.

2.3 Er mwyn rheoli'r broses, mae'r ymgeisydd yn derbyn y bydd yn rhaid i'r Cyngor ymgymryd â'r gwaith neu gyflogi arbenigedd proffesiynol allanol nad oes ffi cynllunio ar gael ar ei gyfer. Mae'r Ymgeisydd felly wedi cynnig bod yn rhan o Gytundeb Perfformiad Cynllunio ac yn barod i ad-dalu i'r Cyngor am y costau eithriadol y bydd yn rhaid eu talu wrth reoli'r broses honno.

2.4 Fodd bynnag, mae’r cynnig yn un amodol ac yn gofyn i’r Cynghorau ysgwyddo rhai cyfrifoldebau yn y broses megis sicrhau adnoddau digonol, asesu a chynghori’r Arolygaeth Cynllunio, paratoi Adroddiad Effeithiau Lleol a chyfrifoldebau eraill i sicrhau fod y cais Gorchymyn Caniatau Datblygu’n cael ei ystyried yn briodol.

2.5 Ni fydd llofnodi’r Cytundeb Perfformiad Cynllunio’n llyffetheirio disgresiwn y Cynghorau mewn perthynas â’u dyletswyddau i ystyried yn briodol ac i ddod i benderfyniad ar unrhyw geisiadau mewn perthynas â'r cynnig Datblygu.

3 **CASGLIADAU**

3.1 Does gan y Cynghorau ddim digon o adnoddau nac o arbenigedd proffesiynol mewnol i reoli’r broses Gorchymyn Caniatau Datblygu llawn yn briodol heb ‘brynu mewn’ adnoddau ac arbenigedd ychwanegol.

3.2 Mae’r Ymgeisydd wedi cydnabod hyn ac wedi cynnig cytundeb a fydd yn cynnwys ad-dalu costau’r Cynghorau am reoli’r broses.

3.3 Mae rhywfaint o gyfrifoldebau wedi’u gosod ar y ddau Gyngor yn y cytundeb a’r farn yw nad yw’r rhain yn rhy drwm a’u bod yr union beth y gellir ei ddisgwyl wrth gyfarfod â'r broses o ddatblygu Gorchymyn Caniatau Datblygu ac archwiliad gan yr Arolygaeth Cynllunio.

3.4 Ni fyddai bod yn rhan o’r cytundeb yn llyffetheirio hawliau’r Cyngor i ddod i benderfyniad priodol unwaith y bydd y Gorchymyn Caniatau Datblygu wedi’i gyflwyno.

4. **ARGYMHELLIAD**

4.1 Fod y Pwyllgor yn cytuno y dylai Sir Ddinbych fod yn rhan o Gytundeb Perfformiad Cynllunio a gynigir gan RWE Npower Renewables mewn perthynas â rheoli’r broses Gorchymyn Caniatau Datblygu llawn.

4.2 Fod y Pwyllgor yn awdurdodi llofnodi’r Cytundeb Perfformiad Cynllunio unwaith y bydd y Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd yn fodlon y bydd y Cyngor yn gallu ysgwyddo’r holl gyfrifoldebau a osodir arno ac y bydd digon o arian ar gael ar gyfer hynny.